Estyn
Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad newyddion

15 Chwefror 2010

Estyn yn cyhoeddi enw'r Prif Arolygydd

O ddydd Llun 15 Chwefror, bydd Cyfarwyddwr Strategol Estyn, Ann Keane, yn ymgymryd â swydd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru nes y gwneir penodiad tymor hwy yn yr hydref.

Dywedodd Ann Keane, "Mae'n anrhydedd ymgymryd â rôl y Prif Arolygydd ac rwy'n hyderus bod Estyn mewn sefyllfa gref i fynd ymlaen â'r gwaith da a gyflawnodd Dr Bill Maxwell yn ystod ei arweinyddiaeth. Rydym ar y trywydd iawn i gyflwyno ein fframwaith arolygu newydd, a thros y misoedd nesaf, byddaf yn gweithio'n agos gyda'r uwch dîm rheoli i sicrhau parhad busnes trwy gydol y cyfnod dros dro."

-DIWEDD-

Y Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gov.uk
02920 446454

Nodiadau i Olygyddion:

Bywgraffiad

Cafodd Ann Keane, sy'n siarad Cymraeg, ei geni yng Nghaerfyrddin a mynychodd Ysgolion Cynradd Llanboidy a Llanymddyfri, ac Ysgol Pantycelyn, Llanymddyfri, ac yna Ysgol Ramadeg Ystalyfera ac Ysgol Ramadeg Llandysul.

Symudodd Ann i Aberystwyth yn ddiweddarach i astudio llenyddiaeth Saesneg a chelf yng Ngholeg Prifysgol Cymru Aberystwyth, ac yna astudiodd yn Ysgol Economeg Llundain ac enillodd gymwysterau ôl-radd mewn addysg a gweinyddu cymdeithasol. Aeth ymlaen wedyn i ennill gradd Meistr mewn hanes celf yng Ngholeg Prifysgol Llundain.

Treuliodd ei gyrfa broffesiynol gynnar yn athrawes yn Ysgol Uwchradd Brentside yn Llundain, Coleg Technegol Merthyr Tudful, Coleg Celf Harrow a Choleg Celf Caergaint cyn iddi gael ei phenodi i swydd yn Athrofa Addysg Uwch Essex (Prifysgol Anglia Ruskin erbyn hyn).

Ym 1984, ymunodd Ann â'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) ac mae wedi cael sawl swydd, gan gynnwys swyddi Arolygydd Ardal, AEM Rheoli a Phennaeth Cyfarwyddiaeth yn gyfrifol am arolygu darpariaeth y blynyddoedd cynnar, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig ac annibynnol, addysg bellach a darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

Yn fwy diweddar, penodwyd Ann yn Gyfarwyddwr Strategol yn Estyn gyda chyfrifoldeb cyffredinol am ddarparu atebolrwydd cyhoeddus trwy gyflwyno arolygiadau cylchol o addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Ynglŷn ag Estyn

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn comisiynu arolygwyr annibynnol (arolygwyr cofrestredig, tîm a lleyg) ac Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant i gynnal arolygiadau ar draws yr ystod lawn o ddarparwyr addysg a hyfforddiant.

Mae Estyn yn arolygu ysgolion a lleoliadau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau), ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion arbennig, ysgolion annibynnol, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau cymorth ieuenctid, awdurdodau addysg lleol, addysg a hyfforddiant athrawon, dysgu yn y gwaith, dysgu troseddwyr, cwmnïau gyrfaoedd, ac elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.